

Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 29 Mehefin 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Cyng Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio

Awdur yr Adroddiad Nicola Kneale, Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol / Iolo McGregor Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Teitl Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020 i 2021

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd ag Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2020 i 2021 (wedi'i atodi yn atodiad 1), gan ddarparu ein dadansoddiad chwarterol a diwedd blwyddyn, yn ogystal ag amlygu prosiectau penodol a chamau gweithredu i'w cyflawni yn 2021 i 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth yn ymwneud â chynnydd y Cyngor wrth gyflawni deilliannau'r Cynllun Corfforaethol ar chwarter 4, 2020 i 2021, cwrdd â'n rhwymedigaeth statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad erbyn 31 Hydref dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r adroddiad yn ymateb i'n dyletswydd ynghylch monitro cydraddoldeb hefyd (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011, sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd); ein cyfraniadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; ac am y tro cyntaf erioed, mae'n ymateb i'r gofyniad i hunanasesu dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.2. Rhoi gwybod i aelodau am brosiectau'r Cynllun Corfforaethol y bwriedir eu cyflawni yn 2021 i 2022, y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyhoeddi i fodloni ei ddyletswydd gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

- 2.3. Mae adrodd yn rheolaidd yn ofyniad monitro hanfodol yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ac yn llunio Adolygiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.
- 2.4. Ceisir adborth ar gynnwys yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft hwn ar gyfer 2020, cyn i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen derfynol ym mis Gorffennaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Argymhellir bod y Cabinet yn ystyried yr adroddiad, ac yn cytuno ar unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i ymateb i unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad a amlygir yn yr adroddiad.
- 3.2. Yn ddarostyngedig i newidiadau y cytunwyd arnynt, bod y Cabinet yn cadarnhau cynnwys Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2020 i 2021, cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod y cyfeiriad strategol i'r cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir y manylion ynglŷn â'r hyn mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i helpu cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol.
- 4.2. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn yn ystod 2020 i 2021, a p'un ai yw'r Cyngor wedi llwyddo i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus. Mae hefyd yn edrych ymlaen at yr hyn fydd yn cael ei gyflawni yn 2021 i 2022.
- 4.3. Am y tro cyntaf erioed, mae'n cynnwys pennod 'peilot' newydd i fodloni'r angen i hunanasesu dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n canolbwyntio ar saith faes allweddol o lywodraethu. Gan dynnu ar y tystiolaeth gyhoeddedig sydd ar gael o ffynonellau mewnol ac allanol, a thrwy edrych ar ddata y cytunwyd arno gyda Uwch Reolwyr, mae'r bennod yn dangos darlun ehangach am y

cyd-destun y mae'r cyngor yn gweithredu wrth gyflawni ei ddeilliannau perfformiad. Mae'n ceisio amlygu camau gweithredu allweddol i wella perfformiad wrth symud ymlaen. Cafodd yr adroddiad hwn ei ddrafftio yn y dull hwn yn dilyn cyngor annibynnol a dderbyniwyd gan CLILC, a chawsom sicrwydd, ar y cyd gyda'n gwerthusiad perfformiad arferol yn erbyn ein Blaenoriaethau Corfforaethol, y bydd yn bodloni'r gofyniad newydd i lunio hunanasesiad blynyddol dan y Ddeddf.

- 4.4. Yn ychwanegol at ein pennod newydd ar lechyd Corfforaethol, mae atodiad I yn cynnwys naratif ar gynnydd o ran cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, gan gynnwys y statws presennol a chynnydd y rhaglen. O fewn pob is-adran y blaenoriaethau corfforaethol, mae adrannau ar Les a Chydraddoldeb hefyd, sy'n cynnwys ein cyfraniadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011 (sy'n cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol). Yn ychwanegol at Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, rydym yn gwerthuso ein cyfraniadau at yr Iaith Gymraeg a Datblygu Cynaliadwy hefyd, a thynnu ar negeseuon allweddol gan ein rheoleiddwyr a data a gyhoeddwyd yn genedlaethol. Mae'r Gofrestr Prosiectau Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd i'w cael yng nghefn y ddogfen.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor o ran y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2017. O ganlyniad, bydd prosiectau/rhaglenni gwaith o fewn y Cynllun Corfforaethol wedi derbyn asesiad unigol, gan y bydd unrhyw gamau gweithredu newydd yn cael eu symud ymlaen.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r adroddiad wedi'i ddatblygu gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Mae adborth eisoes wedi'i geisio ar yr adroddiad gan y Tîm Arwain Strategol, Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio (sydd nawr yn ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Yn dilyn y Cabinet, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir er cymeradwyaeth ar 6 Gorffennaf, 2021.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Byddai peidio â chyhoeddi'r Adolygiad Blynyddol erbyn y dyddiad cau ar 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy'n cael ei chefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Wrth symud ymlaen, bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gymwys.